# DEDDF ADDYSG UWCH (CYMRU) 2015

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR ADRANNAU O'R DDEDDF

### Rhan 2 – Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

### *Adran 5 - Terfyn ffioedd*

17. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun ffioedd a mynediad bennu terfyn ffioedd, neu ddarparu ar gyfer penderfynu ar derfyn ffioedd, mewn perthynas â phob "cwrs cymhwysol" ac mewn cysylltiad â phob blwyddyn academaidd y cwrs sy'n dechrau yn ystod y cyfnod y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef.

18. Mae "cwrs cymhwysol" yn gwrs a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru ac sydd wedi ei ddisgrifio mewn rheoliadau. Mae adran 5(2)(b) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o'r fath ac mae adran 5(7) yn cyfyngu ar allu Gweinidogion Cymru i wahaniaethu rhwng dosbarthiadau penodol o gwrs wrth ragnodi disgrifiadau o "gwrs cymhwysol". At y dibenion hyn, y bwriad yw mai'r cyrsiau sydd i'w rhagnodi yn "gyrsiau cymhwysol" fydd y cyrsiau addysg uwch hynny a ddynodir ar hyn o bryd at ddibenion cymorth i fyfyrwyr gan reoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (gan gynnwys cyrsiau gradd gyntaf a chyrsiau ar gyfer y Diploma Addysg Uwch, y Diploma Cenedlaethol Uwch, y Dystysgrif Genedlaethol Uwch a'r Dystysgrif Addysg Uwch). Yr unig gyrsiau ôl-radd sydd i fod â'r gallu i fod yn gyrsiau cymhwysol yw cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon (adran 5(6)).

19. Wrth ddarparu ar gyfer penderfynu ar derfyn ffioedd, yn hytrach na phennu terfyn ffioedd, gallai cynllun ffioedd a mynediad, er enghraifft, bennu bod cynnydd chwyddiannol i fod yn gymwys i ffioedd cwrs o un flwyddyn academaidd i un arall. Fel arall, gallai cynllun ddarparu ar gyfer terfyn ffioedd drwy gyfeirio at yr uchafswm ar gyfer ffioedd a ragnodir mewn rheoliadau.

20. At y dibenion hyn, "ffioedd" yw ffioedd cwrs, gan gynnwys ffioedd derbyn, cofrestru a dysgu (gweler adran 57(1)). Y ffioedd sydd i'w hystyried at ddibenion y terfyn ffioedd yw ffioedd sy'n daladwy i sefydliad gan "berson cymhwysol", sef person (ac eithrio myfyrwyr rhyngwladol) a ddisgrifir mewn rheoliadau. Mae adran 5(5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi dosbarthiadau o berson at y dibenion hyn. Y bwriad yw y bydd "personau cymhwysol" yn cynnwys personau yn y categorïau a ganlyn sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig: personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig, ffoaduriaid ac aelodau o'u teuluoedd a gwladolion yr Undeb Ewropeaidd.

21. Ni chaniateir i derfyn ffioedd mewn cynllun fynd uwchlaw'r uchafswm sydd i'w ragnodi mewn rheoliadau mewn unrhyw achos.

22. Mae adran 5(9) yn galluogi i reoliadau ddarparu ar gyfer yr amgylchiadau pan fo ffioedd sy'n daladwy i berson yn hytrach na sefydliad rheoleiddiedig (megis ffioedd sy'n daladwy i berson sydd wedi ei freinio ac sy'n darparu cwrs ar ran sefydliad rheoleiddiedig o dan drefniadau breinio) gan berson cymhwysol i'w trin at ddibenion y terfyn ffioedd fel pe baent yn daladwy i'r sefydliad rheoleiddiedig.